WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Powys

Cyhoeddwyd: Ebrill 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 187A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Justine Morgan o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae’r Cyngor wrthi’n datblygu ei drefniadau rheoli ar gyfer y rhaglen wella ac mae’n rhoi blaenoriaeth i newid diwylliannol, ond mae gwendidau o bwys yn y fframwaith rheoli perfformiad yn golygu nad yw’r Cyngor ar hyn o bryd yn gallu gwerthuso perfformiad gwasanaethau a’u heffaith ar ddinasyddion yn iawn 8

Nid yw’r Cyngor wedi cyflawni’r gwelliannau angenrheidiol o hyd mewn rhai gwasanaethau allweddol 8

Mae gwendidau o bwys yn y fframwaith rheoli perfformiad, ac nid yw’r trefniadau presennol yn rhoi darlun cydlynol o berfformiad y Cyngor i ddinasyddion neu randdeiliaid 11

Mae gwaith y Cyngor o ran cynllunio ar gyfer gwelliant a’i drefniadau i gefnogi gwelliant yn briodol mewn rhai meysydd, ac mae’n ymateb i’r angen i ddatblygu ei drefniadau ymhellach pan gaiff materion eu nodi gan waith adolygu allanol, ond mae heriau allweddol yn parhau os yw’r Cyngor am gyflawni’r gwelliannau angenrheidiol 16

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 24

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Bowys a Chyngor Sir Powys 25

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 27

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Powys 31

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Sir Powys (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad canlynol: Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei drefniadau rheoli ar gyfer y rhaglen wella ac mae'n rhoi blaenoriaeth i newid diwylliannol, ond mae gwendidau o bwys yn ei fframwaith rheoli perfformiad yn golygu nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn gallu gwerthuso perfformiad gwasanaethau a'u heffaith ar ddinasyddion yn iawn.

3 Nodwyd y canlynol gennym: Nid yw'r Cyngor wedi cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol o hyd mewn rhai gwasanaethau allweddol:

- mae'r Cyngor wedi gwneud gofal cymdeithasol i oedolion yn flaenoriaeth ar gyfer gwella, ac mae Gwasanaethau Plant yn perfformio'n dda;
- mae cynnydd o safbwynt gwella gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc wedi bod yn gyfyngedig ac yn rhy araf, ac mae Estyn wedi gosod y Cyngor yn y categori ar gyfer awdurdodau y mae angen iddynt wella'n sylweddol;
- ceir rhai meysydd allweddol lle mae perfformiad y Cyngor o safbwynt gweinyddu budd-dal tai i'w ddinasyddion islaw'r cyfartaledd o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.

4 Mae'r Cyngor wedi cychwyn ar raglen o newid diwylliannol er mwyn hyrwyddo gwaith hunanwerthuso mwy agored a thrylwyr, ond ceir gwendidau o bwys yn y fframwaith rheoli perfformiad sy'n golygu nad yw'r trefniadau presennol yn rhoi darlun cydlynol o berfformiad y Cyngor i ddinasyddion neu randdeiliaid:

- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ynghylch gwelliant dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy helaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Nid yw dogfen y Cyngor sy'n dwyn y teitl *Cynllun Newid Powys Cam 2 Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012* (yr Adroddiad ynghylch Perfformiad) hyd yma'n asesiad dibynadwy nac yn werthusiad ystyrlon o berfformiad y Cyngor o safbwynt cyflawni ei feysydd allweddol ar gyfer gwella, er yr hoffem nodi bod yr adroddiad yn well nag adroddiadau'r blynyddoedd a fu.
- Er bod yr Adroddiad ynghylch Perfformiad yn fwy cytbwys nag adroddiadau'r blynyddoedd a fu, mae'n dal i roi darlun rhy gadarnhaol o berfformiad y Cyngor i ddinasyddion ac nid yw'n nodi beth y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol i fynd i'r afael ag achosion o dangyflawni.

5 Yn ogystal, nodwyd y canlynol gennym:

- nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer hunanwerthuso'n ddigon trylwyr i gefnogi gwelliant parhaus nac i roi darlun cydlynol o berfformiad y Cyngor i ddinasyddion neu randdeiliaid;
- mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i raglen o newid diwylliannol er mwyn sbarduno hunanasesiad a gwerthusiad mwy agored a realistig o'i gynnydd o safbwynt cyflawni ei feysydd allweddol ar gyfer gwella;
- cydymffurfiodd y Cyngor â'r rhan fwyaf o'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd a wneir o adnoddau, er na chyhoeddodd ei ddatganiadau ariannol archwiliedig tan 15 Hydref 2012;
- lluniodd y Cyngor ei adroddiad monitro blynyddol ynghylch ei Gynllun Iaith Gymraeg yn hwyr eleni, ac nid yw Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) wedi cwblhau'r broses fonitro eto.

6 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Daethom i'r casgliad canlynol: Mae gwaith y Cyngor o ran cynllunio ar gyfer gwelliant a'i drefniadau i gefnogi gwelliant yn briodol mewn rhai meysydd, ac mae'n ymateb i'r angen i ddatblygu ei drefniadau ymhellach pan gaiff materion eu nodi gan waith adolygu allanol, ond mae heriau allweddol yn parhau os yw'r Cyngor am gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol:

- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. Fodd bynnag, dylai sicrhau bod ei gynllun gwella'n cyfleu yn effeithiol yr hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol a'r modd y bydd hynny'n effeithio ar fywydau dinasyddion.
- Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cynllun busnes y bwriedir iddo wella perfformiad Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ac mae wrthi'n monitro'r modd y caiff y cynllun busnes ei weithredu.
- Mae'r Cyngor wedi cychwyn ar broses o newid diwylliannol a threfniadaethol y bwriedir iddo wella'r ffocws ar ganlyniadau gwasanaethau, cryfhau capasiti a sgiliau a sbarduno'r gwaith o gyflawni amcanion gwella'r Cyngor.
- Mae trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn ystyried y gost sy'n gysylltiedig â chyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella.
- Ymddengys fod dull y Cyngor o reoli cyllid ysgolion, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, yn briodol ond mae her sylweddol yn parhau os yw'r Cyngor am leihau diffygion yn y tymor byr a'u dileu yn y tymor hwy.
- Dim ond yn rhannol y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofyniad iddo wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus, ac mae angen gweithredu'n brydlon ac yn bendant er mwyn cyflawni a dangos gwelliant mewn gwasanaethau allweddol.

# Argymhellion

7 Nid ydym am wneud unrhyw argymhellion newydd eleni, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o safbwynt mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae'r cynigion hynny ar gyfer gwella wedi eu nodi yn ein llythyrau asesiadau gwella a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r llythyrau hynny ar gael ar ein gwefan www.wao.gov.uk.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

8 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

9 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

11 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

**Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei drefniadau rheoli ar gyfer y rhaglen wella ac mae'n rhoi blaenoriaeth i newid diwylliannol, ond mae gwendidau o bwys yn y fframwaith rheoli perfformiad yn golygu nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn gallu gwerthuso perfformiad gwasanaethau a'u heffaith ar ddinasyddion yn iawn**

## Nid yw'r Cyngor wedi cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol o hyd mewn rhai gwasanaethau allweddol

### Mae'r Cyngor wedi gwneud gofal cymdeithasol i oedolion yn flaenoriaeth ar gyfer gwella, ac mae Gwasanaethau Plant yn perfformio'n dda

12 Ar y cyd ag AGGCC, bu i ni gynnal cydarolygiad trylwyr o ofal cymdeithasol i oedolion gan adrodd yn ei gylch yn ystod 2012. Gwelsom fod y gwasanaethau yr oedd y Cyngor yn eu darparu i oedolion yn annhebygol o ddiwallu anghenion pobl gymwys yn gyson, a bod y trefniadau a oedd ar waith yn annhebygol o sicrhau gwelliant o'r maint a'r cyflymder sy'n ofynnol.

13 Mewn ymateb i hynny, mae'r Cyngor wedi sefydlu bwrdd rhaglen ac wedi llunio cynllun busnes ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r cynllun busnes, ynghyd â Chynllun Newid Powys, yn nodi'r ymateb sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gwneud gofal cymdeithasol i oedolion yn flaenoriaeth ar gyfer gwella, ac mae'n cefnogi'r ymrwymiad hwnnw ag adnoddau newydd sylweddol o gyllideb y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, ceir cyfran uchel o reolwyr dros dro a rheolwyr interim sydd â nifer o gontractau a fydd yn dod i ben, a allai arwain at golli parhad, cyfeiriad a momentwm.

14 Yn ogystal, mae AGGCC wedi cyflwyno adroddiad ynghylch Gwasanaethau Plant. Canfu fod y gwasanaethau hynny'n sefydlog, eu bod yn perfformio'n dda a'u bod yn elwa o dîm rheoli cryf a chymwys. Rhoddwyd pwyslais penodol ar ddatblygu rhwydweithiau ar draws grwpiau o staff ac asiantaethau partner, sy'n hollbwysig o safbwynt darparu gwasanaethau ymatebol yn llwyddiannus ar draws awdurdod sy'n wasgaredig iawn.

15 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn rhannu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol â Cheredigion. Mae'r cynghorau yn archwilio cyfleoedd i sicrhau bod y naill gyngor a'r llall yn cael budd o gydweithredu, er enghraifft yng nghyswllt gwasanaethau y tu allan i oriau arferol, hyfforddiant a swyddogaethau comisiynu. Mae'r cynghorau yn gweithredu ar draws ardal lle ceir dau fwrdd iechyd sydd â blaenoriaethau gwahanol, a bydd hynny'n herio'r graddau y bydd modd cydweithredu. Bydd yn bwysig rhagweld y manteision a'r cyfleoedd yn ogystal â'r costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar draws y ddau awdurdod.

16 Cyhoeddodd AGGCC ei dogfen sy'n dwyn y teitl *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2011-2012* ym mis Hydref 2012, a nododd y risgiau posibl a ganlyn:

- gallai'r gwaith ar gydweithredu greu ansicrwydd, gan arwain at achosion o oedi o safbwynt gwneud cynnydd o ran moderneiddio;
- gallai diffyg parhad o ran penodiadau allweddol mewn gwasanaethau i oedolion arwain at fethu â chynnal ac ymgorffori'r rhaglen newid;

- gallai unrhyw orwariant gan y bwrdd iechyd effeithio ar wasanaethau;
- gallai cysondeb gwaith darparu gwasanaethau i oedolion ar draws y rhanbarthau gael ei beryglu.

17 Bu AGGCC hefyd yn adolygu llythyr Cyfarwyddwr y Cyngor, a chadarnhaodd ei fod yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o berfformiad y Cyngor a'i fod yn nodi'n glir y blaenoriaethau ar gyfer gwella y bydd y Cyngor yn gweithio tuag atynt yn ystod y flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd AGGCC fod y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cyngor i ategu'r gwerthusiad hwn yn glir.

## Mae cynnydd o safbwynt gwella gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc wedi bod yn gyfyngedig ac yn rhy araf, ac mae Estyn wedi gosod y Cyngor yn y categori ar gyfer awdurdodau y mae angen iddynt wella'n sylweddol

18 Yn dilyn canlyniad yr arolygiad o wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2011, nodwyd bod angen i'r Cyngor gael ymweliad monitro gan Estyn yn dilyn yr arolygiad hwnnw. Cynhaliwyd yr ymweliad monitro[1] yn ystod mis Hydref 2012 er mwyn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a gododd o'r arolygiad cynharach. Yn ogystal, bu'r adolygiad yn ystyried perfformiad cyfredol y Cyngor, a arweiniodd at nodi meysydd pellach ar gyfer gwella. Mae Estyn wedi cyhoeddi llythyr sy'n nodi canlyniadau'r ymweliad monitro, ac mae ar gael ar ei wefan www.estyn.gov.uk.

19 Canfu Estyn fel a ganlyn: 'ers yr arolygiad yn Chwefror 2011, mae cyflymder gwella yn yr awdurdod a'i ysgolion, yn ogystal â'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan y tîm arolygu, wedi bod yn gyfyngedig ac yn rhy araf'.

20 Roedd canfyddiadau'r ymweliad monitro fel a ganlyn:

- mae lefelau perfformiad mewn ysgolion uwchradd wedi dirywio ers yr arolygiad blaenorol;
- nid yw perfformiad ysgolion cynradd wedi gwella ddigon;
- nid yw'r her i ysgolion yn ddigon cyson na thrylwyr i wneud yn siŵr bod pob ysgol yn gwella'n ddigonol;
- nid yw'r trefniadau i gefnogi gwelliant mewn ysgolion yn cael eu rheoli'n dda;
- nid yw'r rhaglen o adolygiadau ysgol yn canolbwyntio ar yr ysgolion hynny y mae angen eu gwella fwyaf;
- mae ansawdd cofnodion ysgrifenedig o ymweliadau ag ysgolion yn amrywio;
- dim ond defnydd cyfyngedig y mae'r Cyngor wedi ei wneud o'i bwerau llawn er mwyn gwella ysgolion.

21 O ganlyniad i'w ganfyddiadau, ac o ganlyniad i'r cynnydd araf a wneir yn erbyn argymhellion, mae Estyn wedi gosod y Cyngor yn y categori ar gyfer awdurdodau y mae angen iddynt wella'n sylweddol a bydd yn dychwelyd i'r Cyngor cyn pen 12 mis fan bellaf i farnu cynnydd.

1 Ceir cyfeiriadau pellach yn yr adroddiad hwn at ganfyddiadau Estyn. Mae'r holl gyfeiriadau hynny'n ymwneud â chanlyniadau'r un ymweliad monitro a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref 2012.

22 Mewn ymateb i hynny, mae'r Cyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr i fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau addysg yn y sir, ac mae wedi bod yn cydweithredu ag uwch-swyddogion addysg o Gyngor Sir Ceredigion i baratoi cynllun gweithredu er mwyn amlinellu'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i weithredu'r gwelliannau angenrheidiol.

## Ceir rhai meysydd allweddol lle mae perfformiad y Cyngor o safbwynt gweinyddu budd-dal tai i'w ddinasyddion islaw'r cyfartaledd o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru

23 Mae prosesau ar waith a ddylai gefnogi taliadau amserol a chywir i'r bobl iawn, er bod cyfartaledd yr amseroedd prosesu ar gyfer hawliadau newydd a hysbysiadau ynghylch newidiadau mewn amgylchiadau yn hwy na chyfartaledd Cymru. Mae canran yr hawliadau newydd y penderfynir yn eu cylch cyn pen 14 diwrnod, a chanran yr hawliadau newydd na phenderfynir yn eu cylch am dros 50 diwrnod, yn well na chyfartaledd Cymru.

24 Nid yw'r gwasanaeth yn casglu data sy'n dangos canran yr hawliadau a gaiff eu cyfrifo'n gywir; felly, nid oes modd cymharu cywirdeb. Mae canran y gordaliadau a nodwyd ac a adenillwyd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

25 Cymysg yw perfformiad gweithgareddau atal twyll. Gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau a nifer yr ymchwiliadau a oedd yn ymwneud â thwyll, ond cynyddodd nifer y bobl a gosbwyd.

26 Mae'r gwasanaeth yn cael nifer fawr o geisiadau i ailystyried neu adolygu hawliadau, sy'n uwch o lawer na chyfartaledd Cymru. Mae nifer yr apeliadau hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond cânt eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Apeliadau yn gynt na chyfartaledd Cymru.

27 Ceir nifer o feysydd lle byddwn yn monitro cynnydd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r meysydd hynny'n cynnwys cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol ynghylch gordaliadau; cynnydd o ran mynediad effeithlon ar gyfer cwsmeriaid; a chynnydd o ran sicrhau bod hawliadau'n cael eu cyfrifo'n gywir a bod gwerthusiad yn cael ei gynnal o'r rhesymau dros y nifer fawr o geisiadau a ddaw i law i ailystyried neu adolygu hawliadau.

## Mae gwendidau o bwys yn y fframwaith rheoli perfformiad, ac nid yw'r trefniadau presennol yn rhoi darlun cydlynol o berfformiad y Cyngor i ddinasyddion neu randdeiliaid

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ynghylch gwelliant dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy helaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru

28 Trwy gyhoeddi'r Adroddiad ynghylch Perfformiad erbyn y dyddiad cau, sef 31 Hydref 2012, mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol a amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Mesur, dan adran 15 (7).

29 Mae'r Adroddiad ynghylch Perfformiad wedi'i strwythuro'n dda ac mae ei hyd yn rhesymol. Mae'n nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn pob dangosydd statudol ac mae'n cynnwys ffigurau ynghylch perfformiad ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol. Caiff gwybodaeth am berfformiad yn erbyn targedau a chymhariaeth â chyfartaledd Cymru eu cynnwys hefyd. Yn ogystal, caiff y graddau y mae'r Cyngor yn ymwneud â threfniadau cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau eu hesbonio'n glir o safbwynt beth y mae'r trefniadau hynny wedi ei gyflawni a beth sy'n weddill i'w wneud. Mae hynny'n cynnwys cyfeiriad at y cytundeb canlyniadau a'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni drwy'r *Cynllun Powys yn Un*. Mae'r Adroddiad ynghylch Perfformiad yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r argymhellion statudol a nodwyd gennym yn ein hadroddiadau gwella blynyddol ar gyfer 2011 a 2012 ac ymateb y Cyngor i adroddiadau cydarolygiad Swyddfa Archwilio Cymru/AGGCC o ofal cymdeithasol i oedolion.

30 Gallai perthnasedd dangosyddion perfformiad statudol i gynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella gael ei esbonio'n gliriach drwy nodi'r mannau lle maent yn gysylltiedig ag amcanion gwella penodol, ac nid yw'r Adroddiad ynghylch Perfformiad yn dangos yn glir y prosesau y mae'r Cyngor wedi bod drwyddynt i gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i sicrhau gwelliant parhaus. Wrth asesu ei gyflawniadau wrth gydweithredu ag eraill, gallai fod yn ddefnyddiol i'r Cyngor geisio ac ymgorffori adborth gan ei bartneriaid.

31 Mae'r Adroddiad ynghylch Perfformiad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan y Cyngor, a chafodd datganiad i'r wasg ei ryddhau pan gafodd ei gyhoeddi. Mae copïau papur ar gael yn y prif adeiladau cyhoeddus, a rhoddir cyhoeddusrwydd i hynny ym mhapur newydd y Cyngor, sef *Barcud Coch*, a ddosberthir i bob cartref.

### Nid yw Adroddiad ynghylch Perfformiad y Cyngor hyd yma'n asesiad dibynadwy nac yn werthusiad ystyrlon o berfformiad y Cyngor o safbwynt cyflawni ei feysydd allweddol ar gyfer gwella, er yr hoffem nodi bod yr adroddiad yn well nag adroddiadau'r blynyddoedd a fu

32 Dyma'r ail flwyddyn y bu'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad ynghylch Perfformiad sy'n edrych tuag yn ôl. Yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* ym mis Ionawr 2012, pwysleisiwyd gennym fod angen i gynghorau fod yn fwy hunanfeirniadol a gwerthusol ynghylch sut y maent yn darparu eu gwasanaethau, a bod angen iddynt ganolbwyntio'n fwy manwl o lawer ar y canlyniadau arfaethedig a'r effaith a gaiff gwasanaethau ar ddinasyddion.

33 Daeth ein harchwiliad o hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2011-12 ar draws tystiolaeth sy'n dangos bod y Cyngor yn gwneud cynnydd o safbwynt mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol, er bod angen gwneud rhagor o waith. Yn gyffredinol, mae ansawdd hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad o safbwynt cyflawni ei feysydd allweddol ar gyfer gwella yn well o'i gymharu ag ansawdd hunanasesiad y flwyddyn flaenorol.

## Er bod yr Adroddiad ynghylch Perfformiad yn fwy cytbwys nag adroddiadau'r blynyddoedd a fu, mae'n dal i roi darlun rhy gadarnhaol o berfformiad y Cyngor i ddinasyddion ac nid yw'n nodi beth y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol i fynd i'r afael ag achosion o dangyflawni

34 Mae fframwaith clir i fonitro perfformiad ar waith, ac adroddir yn helaeth ynghylch data am berfformiad ond ni chaiff ei integreiddio'n ddigonol â'r gwaith o gynllunio ar gyfer gwelliant ac adrodd yn ei gylch. At hynny, dim ond tystiolaeth gyfyngedig sydd i ddangos bod y Cyngor yn gwneud defnydd da o'r data hwn i herio perfformiad yn gadarn neu benderfynu beth y mae angen iddo ei wneud yn wahanol er mwyn gwella.

35 Canfu Estyn fel a ganlyn: 'Dim ond ers cyfnod cyfyngedig y mae proses rheoli perfformiad corfforaethol newydd yr awdurdod wedi bod ar waith. Hyd yma, nid yw hyn wedi dylanwadu ar welliant nac atebolrwydd o fewn gwasanaethau'r awdurdod lleol i blant a phobl ifanc. Yn ogystal, fframwaith rheoli perfformiad gwan mae'r gwasanaeth ysgolion wedi'i baratoi, ac nid yw'n dwyn swyddogion i gyfrif nac yn monitro perfformiad yn effeithiol. Mae llawer o'r prosesau i reoli perfformiad yn anffurfiol ac yn aneffeithiol. Yn gyffredinol, nid yw'r awdurdod wedi dwyn swyddogion unigol i gyfrif am eu perfformiad. Mae rheoli perfformiad ac adnoddau annigonol yn golygu nad yw meysydd pwysig o waith yr awdurdod yn cael eu cyflawni.'

36 Mae'r Cyngor wedi defnyddio cynnydd yn erbyn camau gweithredu allweddol a dulliau meintiol ac ansoddol o fesur perfformiad fel y brif dystiolaeth i hunanasesu ei berfformiad. Mae ei Adroddiad ynghylch Perfformiad yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth o wahanol ffynonellau, a chaiff y dystiolaeth honno ei chyflwyno mewn modd sy'n haws ei ddeall na'r llynedd. Fodd bynnag, ceir gorddibyniaeth o hyd ar adrodd ynghylch yr hyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud yn hytrach na sôn am y gwahaniaeth y mae hynny'n ei wneud, ac nid yw'r targedau a osodir yn heriol yn gyson. Nid yw adran naratif yr asesiad bob amser yn adrodd ynghylch cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd, sy'n ei gwneud yn anodd barnu a yw'r cynnydd a wnaed yn rhesymol neu a yw'n cyd-fynd â'r hyn a fwriadwyd.

37 Er bod yr Adroddiad ynghylch Perfformiad yn fwy cytbwys nag adroddiadau'r blynyddoedd a fu, mae'n dal i gyfleu cynnydd y Cyngor mewn goleuni ffafriol yn gyffredinol, er enghraifft, drwy gyfrwng geiriau a ddewiswyd yn ofalus, y targedau y mae'n eu gosod ar ei gyfer ei hun, a'r amrywiadau y mae'n eu hystyried yn dderbyniol mewn perthynas â'r targedau hynny. Er y nodir rhai meysydd lle

mae perfformiad yn wannach, rhoddir gwedd fwy cadarnhaol arnynt yn aml trwy gyfeirio at ‘newydd da’ neu cânt eu disgrifio mewn iaith anunion neu amwys. Nid yw’r Adroddiad ynghylch Perfformiad yn ymhelaethu ar yr hyn y mae’r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol i fynd i’r afael â’r meysydd y nodwyd bod y Cyngor yn tangyflawni ynddynt.

## Nid yw trefniadau’r Cyngor ar gyfer hunanwerthuso’n ddigon trylwyr i gefnogi gwelliant parhaus nac i roi darlun cydlynol o berfformiad y Cyngor i ddinasyddion neu randdeiliaid

38 Nid yw Adroddiad ynghylch Perfformiad y Cyngor yn cynnwys hunanwerthusiad cadarn o’i farn ynghylch pa mor dda y mae’n perfformio o safbwynt cyflawni ei amcanion gwella. Mae’r wybodaeth y mae ei hangen i lunio trosolwg o’r cynnydd y mae’r Cyngor yn ei wneud yn dameidiog yn yr Adroddiad ynghylch Perfformiad, ac ni chaiff ei grynhoi’n ddigonol i lunio gwerthusiad cydlynol.

39 Rydym wedi ystyried safbwyntiau rheoleiddwyr eraill ynghylch dibynadwyedd trefniadau hunanwerthuso’r Cyngor, ac mae’r rhain yn dangos cryn dipyn o anghysondeb mewn arferion yn y Cyngor. Yn ei dogfen sy’n dwyn y teitl *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2011-2012*, nododd AGGCC fel a ganlyn: ‘mae llythyr y Cyfarwyddwr yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o berfformiad y cyngor’ ac ‘mae’r dystiolaeth a ddarparwyd gan y cyngor i gefnogi eu gwerthusiad yn eglur’.

40 Fodd bynnag, dywed Estyn: ‘Nid yw trefniadau’r awdurdod ar gyfer hunanarfarnu’n ddigon trylwyr. Mae hyn yn golygu bod diffygion pwysig a heriau o fewn y gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn cael eu colli. Nid yw’r awdurdod yn hunanarfarnu’n effeithiol, ac ni all felly ddefnyddio hunanwybodaeth i gynllunio ar gyfer gwella. Mae’r gwendidau yn yr hunanarfarnu ar lefel gorfforaethol yn cael eu hadlewyrchu ar lefel gwasanaethau hefyd. O ganlyniad, mae’r hunanarfarniad a ddarparwyd i’r tîm, cyn yr ymweliad monitro, yn rhy gadarnhaol a disgrifiadol. Nid yw’n nodi’r diffygion a nodwyd gan y tîm arolygu na’r diffyg cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Hefyd, roedd gormod o swyddogion allweddol na chyfranogodd at baratoi’r adroddiad hunanarfarnu, ac ni chafodd ei rannu â phenaethiaid na rhanddeiliaid eraill.’

## Mae’r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i raglen o newid diwylliannol er mwyn sbarduno hunanasesiad a gwerthusiad mwy agored a realistig o’i gynnydd o safbwynt cyflawni ei feysydd allweddol ar gyfer gwella

41 Mae’n amlwg bod Adroddiad ynghylch Perfformiad y Cyngor eleni wedi bod yn destun gwaith adolygu a herio mewnol mwy trylwyr ar amryw lefelau, gan gynnwys ar lefel yr uwch-dîm rheoli, y Cabinet a chydgadeiryddion y pwyllgorau craffu. Er bod y cam hwn yn un cadarnhaol, ni roddwyd digon o amser i ganiatáu i’r materion a godwyd (yn benodol, y materion a godwyd gan y pwyllgorau craffu) gael eu hystyried yn briodol a chael sylw priodol cyn i’r Adroddiad ynghylch Perfformiad gael ei gyflwyno i’r cabinet er mwyn ei gymeradwyo.

42 Yn wir roedd safbwyntiau'r pwyllgorau craffu, a ystyriwyd gan y Cabinet wrth gymeradwyo'r Adroddiad ynghylch Perfformiad ar 2 Hydref 2012, yn cynnwys sylwadau megis: 'ychydig o wybodaeth a geir yn y ddogfen am ganlyniadau newidiadau – pa wahaniaeth y mae hynny wedi ei wneud i'r cyhoedd' ac 'nid oes unrhyw sylwadau negyddol yn y ddogfen i ddarparu cydbwysedd – mae'n ormod o stori newydd da'. Mae'r safbwyntiau hyn yn gyson â'n rhai ni. Byddai'r Cyngor yn elwa o ymateb i heriau mewnol o'r fath a gweithredu ar eu sail yn gynt yn ystod y broses o ddatblygu ei Adroddiad blynyddol ynghylch Perfformiad y flwyddyn nesaf, er mwyn helpu i adnabod sylwadau sy'n gadarnhaol yn bennaf a helpu i unioni'r anghydbwysedd.

43 Os yw'r Cyngor am ddatblygu diwylliant sy'n briodol o agored a realistig ac sy'n hyrwyddo hunanwerthuso trylwyr, bydd effeithiolrwydd gwaith craffu a'r berthynas rhwng swyddogion a'r broses graffu yn allweddol. I'r perwyl hwnnw, rydym yn pryderu ynghylch y canfyddiad canlynol gan Estyn: 'Ers yr arolygiad diwethaf, ac o dan arweinyddiaeth dwy weinyddiaeth, mae'r pwyllgor craffu wedi'i chael hi'n anodd ar lawer achlysur i gael mynediad i wybodaeth bwysig. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae aelodau wedi tynnu sylw at bryderon ynglŷn â'r cynnydd yn erbyn y cynllun ôl-arolygiad, ac wedi gofyn a yw swyddogion wedi gwneud y defnydd gorau o adnoddau i gyflawni'r camau angenrheidiol. Fodd bynnag, nid yw swyddogion wedi ymateb i'r pryderon hyn.'

44 Rydym wrthi'n gweithio ochr yn ochr ag aelodau pwyllgorau craffu'r Cyngor a'r tîm cymorth sy'n cymryd rhan mewn astudiaeth wella ar gyfer Cymru gyfan, y bwriedir iddi hyrwyddo a chefnogi gwelliant mewn effeithiolrwydd trefniadau craffu. Byddwn yn adrodd ynghylch canlyniadau'r astudiaeth maes o law.

45 Cawn ein calonogi gan y ffaith bod arweinwyr y Cyngor yn gweithio i hyrwyddo diwylliant sy'n gofyn am hunanasesiad mwy agored a chytbwys o berfformiad y Cyngor, a'u bod yn fwy gwerthusol a realistig ynghylch y cynnydd a wneir o safbwynt cyflawni ei amcanion gwella. Er enghraifft, mae ein staff a'n cydweithwyr yn AGGCC wedi cael eu gwahodd i fod yn bresennol a chymryd rhan mewn Digwyddiad Herio sy'n ymwneud â Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor, a gynhelir gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol er mwyn hwyluso camau cadarn yn fewnol ac yn allanol i herio adroddiad y Cyfarwyddwr cyn iddo gael ei gyhoeddi.

46 Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg mai megis dechrau y mae'r newid diwylliannol a bod y Cyngor yn blaenoriaethu prosiectau a gweithgarwch cysylltiedig er mwyn ceisio lleihau'r amser a gymer cyn y bydd arferion yn cael eu hymgorffori ac yn arwain at y canlyniadau a ddymunir.

47 Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn iddi fod yn ffynhonnell o gymorth a her mewn perthynas â threfniadau hunanasesu a hunanwerthuso'r Cyngor, a byddwn yn parhau i adolygu cynnydd y Cyngor wrth iddo ddatblygu ei drefniadau.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'r rhan fwyaf o'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd a wneir o adnoddau, er na chyhoeddodd ei ddatganiadau ariannol archwiliedig tan 15 Hydref 2012

48 Rhoddodd yr archwilydd penodedig ei farn ar gyfrifon y Cyngor yn ddiweddar, ac roedd o'r farn bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd a wneir o adnoddau, er na chyhoeddodd ei ddatganiadau ariannol archwiliedig tan 15 Hydref 2012. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Lluniodd y Cyngor ei adroddiad monitro blynyddol ynghylch ei Gynllun Iaith Gymraeg yn hwyr eleni, ac nid yw Comisiynydd y Gymraeg wedi cwblhau'r broses fonitro eto

49 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

50 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

51 Mae sylwadau'r Comisiynydd ynghylch ei gwaith gyda'r Cyngor eleni fel a ganlyn: 'Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei systemau cyfrifiadurol dwyieithog, gan gynnwys ceisiadau rhyddid gwybodaeth a chofrestrau cynllunio dwyieithog ar-lein. Mae wedi cyflwyno cyrsiau e-ddysgu Cymraeg a Saesneg ar amddiffyn plant. Ailsefydlwyd Grŵp Cyfeirio Iaith Gymraeg y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, a ddiddymwyd llynedd. Golyga hyn bod fforwm yn bodoli eto ar gyfer trafod anghenion siaradwyr Cymraeg ifanc. Bu oedi sylweddol eleni cyn derbyn adroddiad monitro blynyddol y Cyngor ar weithrediad ei gynllun iaith Gymraeg. O ganlyniad, nid yw'r broses fonitro wedi ei chwblhau eto. Ni chyrhaeddodd y Cyngor rai targedau ar gyfer gweithredu ei gynllun iaith. Disgwylir iddo roi blaenoriaeth i asesu effaith polisïau, sefydlu gwaelodlin ar gyfer nifer y gwasanaethau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg a chwblhau'r broses o gofnodi lefel sgiliau iaith Gymraeg y staff.'

## Mae gwaith y Cyngor o ran cynllunio ar gyfer gwelliant a'i drefniadau i gefnogi gwelliant yn briodol mewn rhai meysydd, ac mae'n ymateb i'r angen i ddatblygu ei drefniadau ymhellach pan gaiff materion eu nodi gan waith adolygu allanol, ond mae heriau allweddol yn parhau os yw'r Cyngor am gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. Fodd bynnag, dylai sicrhau bod ei gynllun gwella'n cyfleu yn effeithiol yr hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol a'r modd y bydd hynny'n effeithio ar fywydau dinasyddion

52 Mae amcanion gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol, *Cynllun Newid Powys 2012/15* (y Cynllun) yn bodloni'n gyffredinol y gofynion a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, er y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i gynlluniau'r dyfodol gyfeirio at ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r modd y mae'r Ddeddf yn dylanwadu ar y rhaglen wella. Mae'r Cynllun yn cynnwys ymateb y Cyngor i'n hargymhellion statudol ynghylch gwasanaethau oedolion a chapasiti a gallu, a nodwyd yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* a gyhoeddwyd gennym ym mis Ionawr 2012, er nad ymhelaethir yn fanwl ar gapasiti a gallu.

53 Mae'r Cynllun yn ailddatgan y pum amcan gwella sy'n llunio cyfraniad y Cyngor at y 10 amcan cyffredin sydd yn *Powys yn Un* ac y mae'r Cyngor wedi cytuno â hwy ar y cyd â'i bartneriaid. Mae'r canlyniadau hyn wedi'u cymeradwyo drwy ymgynghori â'r trigolion a rhanddeiliaid eraill yn ystod haf 2011. Er bod gwaith ymgynghori pellach wedi digwydd ers hynny ynghylch prosiectau y bwriedir iddynt gyflawni amcanion gwella'r Cyngor, ni chaiff manylion y gwaith ymgynghori hwnnw eu hadlewyrchu yn y Cynllun.

54 Gallai'r Cynllun gyfleu'n fwy effeithiol yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol neu'r effaith y bydd ei gamau gweithredu'n ei chael ar ddinasyddion. Mae angen o hyd i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai o'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi eu nodi'n flaenorol yng nghyswllt y Cynllun. Mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod y Cynllun yn haws ei ddeall, ond ceir gorddibyniaeth o hyd mewn mannau ar dermau technegol sy'n annhebygol o gael eu deall gan y rhan fwyaf o bobl. Mae'r Cyngor, yn gywir ddigon, wedi ceisio symleiddio'r modd y mae'n disgrifio pob un o'i bum amcan gwella er mwyn canolbwyntio'n fwy manwl ar ganlyniadau. Fodd bynnag, dim ond mewn termau cyffredinol y caiff camau gweithredu eu mynegi ac ni chânt eu gosod yn gyson yng nghyd-destun lefelau cyfredol perfformiad, sy'n golygu ei bod yn anodd barnu graddau'r gwelliant y ceisir ei gyflawni neu farnu'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol. Mae mesurau a thargedau ar waith, ond ychydig o'r rhain a gaiff eu mynegi yn nhermau'r gwahaniaeth y mae'r Cyngor am ei wneud i fywydau dinasyddion. Yn ogystal, mae angen gwneud rhagor o waith i adlewyrchu camau gweithredu a mesurau priodol ar gyfer rhaglen adfywio'r Cyngor yn y Cynllun.

55 Wrth ystyried cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc, canfu Estyn fel a ganlyn: 'Nid yw'r cynllunio ar lefel strategol yn canolbwyntio'n ddigon clir ar ddeilliannau. Mae diffyg cerrig milltir defnyddiol a mesurau deilliannau mesuradwy ar bob lefel o'r cynllunio yn golygu ei bod yn anodd rheoli a monitro perfformiad. Yn gyffredinol, nid yw'r awdurdod yn gwneud defnydd llawn o'r wybodaeth neu'r data sydd ar gael i'w

alluogi i gynllunio'n strategol neu ddyrannu adnoddau'n effeithiol.'

56 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn canolbwyntio ar roi strwythurau rheoli prosiectau a rhaglenni ar waith i gefnogi'r broses o weithredu ei raglen wella a monitro'r cynnydd y mae'n ei wneud. Cafodd dyddiad cyhoeddi'r Cynllun ei ddwyn ymlaen i 1 Mawrth 2012 er mwyn iddo gyd-fynd â phrosesau pennu cyllidebau ac er mwyn sicrhau bod amcanion gwella'n cael digon o adnoddau. Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mesurau llwyddiant mwy addas ar gyfer canlyniadau *Powys yn Un*. Mae gwybodaeth fanylach am y rhaglen wella ar gael mewn ystod o ddogfennau monitro a gyflwynir i fyrddau prosiectau unigol. Fodd bynnag, at ddefnydd mewnol y Cyngor ei hun y mae'r wybodaeth hon yn bennaf ac nid yw ar gael yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Dylai'r Cyngor wneud mwy i esbonio sut y gall darllenydd sydd â diddordeb gael gafael ar wybodaeth ychwanegol neu gael gwybod mwy. Mae gan y Cyngor gynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer prosesau cyfathrebu mewnol ac allanol, a chaiff negeseuon eu teilwra er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn parhau'n ddiddorol ac yn berthnasol i wahanol gynulleidfaoedd targed.

57 Mae'r Cynllun ar gael ar wefan y Cyngor, a chafodd ei hyrwyddo drwy gyfrwng erthygl gryno yn llythyr newyddion y Cyngor, sef *Barcud Coch*, a ddosberthir i bob cartref. Mae copïau papur o'r Cynllun ar gael mewn llyfrgelloedd, mannau gwasanaethau cwsmer a chanolfannau hamdden, ac mae wedi cael ei hyrwyddo'n eang yn y wasg leol, ar wefannau cyfryngau cymdeithasol ac mewn erthyglau yng nghylchgrawn y staff.

58 Yn gyffredinol, mae dulliau'r Cyngor o gasglu dangosyddion perfformiad ac adrodd yn eu cylch yn ddibynadwy, er i ni sôn am rai materion sy'n ymwneud â nifer fach o ddangosyddion lle mae angen gwella'r trefniadau.

## Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cynllun busnes y bwriedir iddo wella perfformiad Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ac mae wrthi'n monitro'r modd y caiff y cynllun busnes ei weithredu

59 Gwnaed dau argymhelliad statudol gennym y llynedd ynghylch yr angen i fynd i'r afael â pherfformiad gwael ym maes Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac, wrth ymateb, mae'r Cyngor wedi bod yn barod i dderbyn ein canfyddiadau a'n casgliadau ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol o safbwynt sefydlu trefniadau priodol i sbarduno gwelliant.

60 Mae'r Cyngor wrthi'n archwilio cyfleoedd i adeiladu capasiti a gwella effeithlonrwydd/effeithiolrwydd drwy gydweithredu. Ar hyn o bryd mae swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn swydd a rennir â Chyngor Sir Ceredigion tra mae'r ddau gyngor yn archwilio'r manteision a allai ddeillio o gydweithredu.

61 Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn camau i ail-lunio ei gynllun busnes ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion a chefnogi'r gwaith o'i gyflawni â threfniadau cadarn ar gyfer rheoli prosiectau. Comisiynodd y Cyngor gwmni PriceWaterhouseCoopers i'w gynorthwyo i gyflawni'r gwaith hwn a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n llawn â staff Gofal Cymdeithasol ar bob lefel wrth lunio a chyflawni'r agenda newydd ar gyfer gwella.

62 Ar ôl cymeradwyo'r cynllun busnes newydd, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Rhaglen (y Bwrdd) ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion ym mis Mawrth 2012, sy'n cael ei gadeirio gan yr aelod etholedig â chyfrifoldeb am Ofal Cymdeithasol a Thai ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr uwch-aelodau o staff o bob rhan o'r Cyngor. Rôl y Bwrdd fu monitro a herio cynnydd a'r gwaith o gyflawni'r amryw brosiectau a nodwyd yn y cynllun busnes, ac mae wedi bod yn agored ac yn dryloyw wrth wahodd ein staff a staff AGGCC i arsylwi busnes y Bwrdd. Yn ogystal, penododd y Cyngor Bennaeth interim ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion sydd, gyda'r Cyfarwyddwr, yn darparu arweiniad a chyfeiriad clir ar gyfer rheolwyr gwasanaethau a'r staff ynghyd â chymorth a sicrwydd gwerthfawr ar gyfer busnes y Bwrdd.

63 Gan fod nifer o brosiectau'r cynllun busnes wedi eu cwblhau, neu bron wedi eu cwblhau, bu'r Bwrdd yn ystyried 'adolygiad diwedd blwyddyn' yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2013 er mwyn gwerthuso a yw'r canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni ai peidio. Nododd yr adolygiad mewnol ddarlun cymysg o welliannau. Adroddwyd ynghylch canlyniadau gwell yng nghyswllt y canlynol: newid trefniadaethol a diwylliannol; hygyrchedd gwasanaethau; ansawdd adolygiadau achos a'r broses o reoli gofal; a niferoedd y bobl hŷn a gaiff gymorth i fyw gartref. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad hefyd nad oedd y targedau a osodwyd ar gyfer gwella wedi eu cyflawni mewn perthynas â'r canlynol: sesiynau goruchwylio ac arfarniadau staff; absenoldeb staff oherwydd salwch; rheolaeth ariannol; ac amseroldeb asesiadau cynllunio gofal.

64 Mae AGGCC wedi cynnal arolygiad dilynol arferol o wasanaethau oedolion yn ystod mis Mawrth 2013, a bydd yn adrodd ynghylch ei chanfyddiadau maes o law.

## Mae'r Cyngor wedi cychwyn ar broses o newid diwylliannol a threfniadaethol y bwriedir iddo wella'r ffocws ar ganlyniadau gwasanaethau, cryfhau capasiti a sgiliau a sbarduno'r gwaith o gyflawni amcanion gwella'r Cyngor

65 Yn ein *Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol 2011* ac yn ein *Adroddiad Gwella Blynyddol* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, argymhellwyd gennym y dylai'r Cyngor: 'sefydlu trefniadau mwy manwl a chyson o ran proffilio gofynion adnoddau dynol ar draws ei bortffolio prosiectau er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau a gallu i gyflawni ei amcanion gwella'. Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o safbwynt mynd i'r afael â'r bylchau o ran sgiliau a oedd yn amlwg yn syth, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae gwaith ar y gweill i greu cynlluniau ar gyfer y gweithlu a gwella sgiliau'r staff ymhellach yn y tymor byr i ganolig. Fodd bynnag, ceir risgiau y mae angen i'r Cyngor eu rheoli'n rhagweithiol er mwyn sicrhau bod gan y staff lwythi gwaith rhesymol a'u bod yn cyflawni prosiectau gwella allweddol mewn modd amserol.

66 Cyflawnodd y Cyngor ymarfer mapio i nodi'r gofynion o ran gwasanaeth cymorth corfforaethol ar gyfer pob un o'i brosiectau sy'n ymwneud â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Ac eithrio gwaith moderneiddio ysgolion, mae adnoddau wedi eu darparu erbyn hyn ar gyfer pob prosiect cam 1. Mae

gwaith ar y gweill i sicrhau bod y prosiectau sy'n weddill yn cael yr holl adnoddau angenrheidiol.

67 Nododd yr ymarfer mapio hefyd fod rhai swyddogion yn ei chael yn fwyfwy anodd cyflawni'r gwaith prosiect ochr yn ochr â'u gwaith o ddydd i ddydd, er bod staff wedi eu clustnodi i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau. Dyma densiwn a risg y mae angen i'r Cyngor eu rheoli'n rhagweithiol os yw am sicrhau bod gan y staff lwythi gwaith rhesymol a bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n amserol.

68 Mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei brosesau cynllunio yn cynnwys camau i nodi gofynion o ran adnoddau dynol, drwy:

- beidio â chomisiynu prosiectau newydd oni bai eu bod yn cynnwys cynllun adnoddau priodol;
- datblygu cynlluniau gweithlu sy'n seiliedig ar wasanaethau dros y ddwy flynedd nesaf;
- cyflwyno system newydd ar gyfer arfarnu staff a chynlluniau datblygiad personol.

69 Dylai'r gwaith hwn atgyfnerthu gallu'r Cyngor i sicrhau bod adnoddau a sgiliau'n cyd-fynd â'r gwaith o gyflawni ei amcanion gwella yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor hanes gwael o safbwynt cyflwyno cyfres gynhwysfawr o gynlluniau ystyrlon ar gyfer y gweithlu. Bu angen i'r maes gwaith hwn gael cefnogaeth lawn tîm y Cyngor o uwch-arweinwyr er mwyn lleihau'r risg o fethu, a bydd yr angen hwnnw am gefnogaeth yn parhau.

70 Mae'r Cyngor wedi dechrau gwella sgiliau rhannau o'i weithlu. Mae'r cyfarwyddwyr wedi bod yn mynychu cwrs hyfforddi a mentora. Mae'r hyfforddiant hwnnw'n canolbwyntio ar ddatblygu ymhellach eu sgiliau ym maes rheoli newid, a dechrau creu diwylliant yn y Cyngor o ddatblygu pobl drwy eu hyfforddi. Mae dwy garfan o uwch-reolwyr wedi bod yn mynychu cwrs arweinyddiaeth er mwyn gwella eu sgiliau arwain staff a rheoli newid. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod arfarniadau staff a chyfleoedd dysgu a datblygu yn parhau i gael eu gweithredu ar gyflymder addas. Heb y camau hyn i ddatblygu'r gweithlu, mae'n bosibl na fydd gan y Cyngor ddigon o'r capasiti a'r gallu a fydd yn angenrheidiol i gyflawni ei flaenoriaethau yn y dyfodol.

71 Mae'r Prif Weithredwr wedi cydnabod bod angen newid sylfaenol mewn ymddygiad, a fydd yn creu newid diwylliannol er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei Gynllun Newid yn llwyddiannus. Ym mis Mawrth 2012, cyflogodd y Cyngor gwmni Hay Consultants i'w gynorthwyo i wella ei effeithiolrwydd trefniadaethol. Ar sail y gwaith hwnnw, mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad bod angen iddo ganolbwyntio'n fwy manwl o lawer ar nodi a chyflawni canlyniadau gwasanaethau, yn hytrach na'r arfer cyfredol o ganolbwyntio'n bennaf ar batrymau traddodiadol o ddarparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi nodi bod gan ei strwythur trefniadaethol cyfredol ormod o haenau ac nad oes gan ei staff rheng flaen bob amser y grym i ymgymryd â thasgau yn y modd mwyaf effeithlon.

72 Mae'r Cyngor o'r farn bod angen iddo nodi ei flaenoriaethau'n fwy trylwyr a chanolbwyntio'n fwy helaeth ar allbynnau a chanlyniadau, ac mae'r ddau beth yn faterion yr ydym wedi nodi eu bod yn angenrheidiol mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn ac mewn adroddiadau blaenorol a gyhoeddwyd gennym. I ategu hynny, mae'r Cyngor yn ystyried y cysyniad o gomisiynu gwasanaethau drwy'r system gyflenwi fwyaf effeithlon, boed yn fewnol, drwy asiantaeth allanol neu drwy gydweithredu, er mwyn trawsnewid y Cyngor yn y modd a ddisgrifir yng Nghynllun Newid Powys.

## Mae trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn ystyried y gost sy'n gysylltiedig â chyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella

73 Mae'r Cyngor yn deall effaith llai o gyllid cyhoeddus, ac mae ei drefniadau ar gyfer pennu cyllidebau yn ogystal â *Chynllun Ariannol Tymor Canolig* treigl dros gyfnod o bedair blynedd yn nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi ac arbedion effeithlonrwydd dros y tymor canolig.

74 Mae *Cynllun Newid Powys 2012/15* yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor yn eithaf clir, ac mae'r broses cynllunio ariannol yn ystyried y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun ac yn pennu eu cost. Mae'r gwaith o ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion/defnyddwyr gwasanaeth ynghylch amcanion y Cyngor a'i flaenoriaethau o ran y gyllideb wrthi'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd. Mewn ymateb i'n cynnig blaenorol ar gyfer gwella, mae'r Cyngor wedi datblygu fframwaith corfforaethol a dull mwy cydgysylltiedig o weithredu er mwyn gwella'i allu i werthuso a chynyddu'r budd a geir o ymgysylltu fel hyn â dinasyddion.

75 Mae'r Cyngor yn wynebu gostyngiad o £30 miliwn yn ei gyllideb sylfaenol dros y tair blynedd nesaf. Cymeradwyodd y Cyngor gyllideb gytbwys ar gyfer 2013-14 ar 4 Mawrth 2013, er bod y *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* ar hyn o bryd yn nodi diffyg o £852,000 dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2016. Cyn bo hir bydd angen i'r Cyngor nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn, a bydd angen iddo ddechrau cynllunio sut i ymdrin â'r diffyg parhaus ar ôl 2015-16.

## Ymddengys fod dull y Cyngor o reoli cyllid ysgolion, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, yn briodol ond mae her sylweddol yn parhau os yw'r Cyngor am leihau diffygion yn y tymor byr a'u dileu yn y tymor hwy

76 Yn 2011 cynhaliodd Estyn arolwg o ansawdd gwasanaethau addysg awdurdod lleol i blant a phobl ifanc yn y Cyngor. Nododd ei adroddiad arolygu fod 'diffyg yng nghyllidebau gormod o ysgolion' ac argymhellodd fod y Cyngor yn 'cymryd camau effeithiol i leihau'r diffyg yng nghyllidebau ysgolion'. Ym mis Ionawr 2012, adolygwyd y modd y mae'r Cyngor yn rheoli cyllidebau ysgolion gennym. Adroddwyd ynghylch canfyddiadau ein harchwiliad wrth y Cyngor ym mis Awst 2012, a chaiff y rhain eu crynhoi isod.

77 Yn ystod y cyfnod rhwng 2006-07 a 2010-11, roedd gan bump o 13 o ysgolion uwchradd y Cyngor warged mawr ac roedd gan bump ohonynt batrwm o ddiffygion a oedd yn cynyddu'n sylweddol. Ddiwedd 2011-12, ymddengys fod rhywfaint o welliant wedi digwydd oherwydd nodwyd bod pedair

o’r ysgolion a oedd â gwarged mawr yn y gorffennol wedi lleihau eu gwarged cronnus yn sylweddol a bod un ysgol wedi symud o ddiffyg i warged. Er hynny, roedd pedair ysgol uwchradd yn parhau i fod â diffygion cronnus cynyddol heb eu hawdurdodi.

78 Mae cyllidebau ysgolion uwchradd wedi bod dan bwysau oherwydd cyfuniad o gostau’n cynyddu, niferoedd disgyblion yn gostwng a’r ffaith bod arian yn cael ei ddargyfeirio gan y Cyngor o Addysg i Wasanaethau Cymdeithasol i Blant. Fodd bynnag, er ei bod yn bosibl bod y ffactorau hyn wedi creu rhai anawsterau, nid ydynt yn esbonio’r amrywiad eithafol yn sefyllfa ariannol gronnus ysgolion unigol dros y cyfnod dan sylw.

79 Mae ysgolion unigol wedi cyflawni canlyniadau sy’n amrywio’n aruthrol o safbwynt cyllidebau. Mae gan rai warged ar lefel a ddylai fod wedi peri pryder i’r Cyngor ers peth amser, tra mae ysgolion eraill wedi cronni diffygion sylweddol iawn sydd heb eu hawdurdodi ac a ddylai hefyd fod wedi peri pryder. Ymddengys fod timau rheoli a/neu fyrddau llywodraethwyr ysgolion unigol naill ai wedi methu â chydnabod eu cyfrifoldeb am reoli cyllidebau neu wedi methu â dangos yr ymrwymiad angenrheidiol a’r arbenigedd angenrheidiol ym maes rheolaeth ariannol.

80 Mae graddau a pharhad problemau ysgolion uwchradd o safbwynt cyllidebau’n dangos aneffeithiolrwydd dull y Cyngor o ymdrin â’r mater hwn. Mae’r Cyngor wedi methu â darparu her gadarn ac amserol i’r ysgolion hynny sydd wedi dewis parhau i gynnal diffygion mawr; mae wedi methu â monitro a yw ysgolion sydd heb yr arbenigedd perthnasol yn cymryd camau i ddod o hyd i’r arbenigedd hwnnw ai peidio; ac mewn achosion eithafol mae wedi oedi cyn defnyddio’r pwerau ymyrryd sydd ar gael iddo.

81 Yn ogystal cymerodd Estyn gamau pellach yn ystod ei ymweliad monitro, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2012, i adolygu’r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o safbwynt lleihau diffygion mewn cyllidebau ysgolion. Canfu Estyn fel a ganlyn: ‘Mae’r awdurdod lleol wedi bod yn araf yn gweithredu’r fframwaith llywodraethu diwygiedig sydd ei angen os yw i wella rheolaeth cyllid dirprwyedig i’w ysgolion. O ganlyniad, deunaw mis ar ôl yr arolygiad diwethaf gan Estyn, mae ei arweiniad a’i weithdrefnau gwreiddiol ar waith gan yr awdurdod lleol o hyd.

82 Mae’r awdurdod lleol wedi ymgynghori ynghylch rheoliadau ariannol newydd ac arweiniad. Mae’r diwygiadau drafft hyn bellach yn cyfleu’n gliriach:

- ystod cyfrifoldebau’r rheini sy’n gysylltiedig â chyllido ysgolion;
- y prosesau ar gyfer monitro gwariant;
- y cyfyngiadau i awdurdod dirprwyedig ar gyfer gwariant; a’r
- rheolaethau a’r sancsiynau y mae’r awdurdod lleol yn gallu’u cymhwyso pan fydd y gwario’n mynd y tu hwnt i derfynau rhagddiffiniedig.

Fodd bynnag, mae dogfennau allweddol ar ffurf ddrafft o hyd, a dim ond mewn ychydig o ysgolion y maent wedi’u rhoi ar brawf.

83 Yng Ngorffennaf 2012, cytunodd y Cabinet ar feini prawf llym ar gyfer rheoli'r diffygion cyllideb mawr. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys:

- cyfleuster benthyca gydag amodau wedi'u diffinio'n bendant iawn;
- gofyniad i ysgolion gynhyrchu cynlluniau adfer priodol â chostau llawn ynghlwm o fewn graddfeydd amser tynn a chlir y mae'n rhaid eu cymeradwyo ar lefel cyfarwyddwr strategol.

84 Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi darparu cymorth i helpu ysgolion wella'r ffordd maent yn rheoli'u cyllideb, gyda ffocws arbennig ar y pedair ysgol sydd wedi gorwario fwyaf. O ganlyniad, mae diffygion cyllidebau'n lleihau'n araf. Mae pob un o'r pedair ysgol uwchradd sydd â chyllidebau diffyg uchel wedi cynhyrchu cynlluniau adfer drafft. Ond er bod y cynlluniau hyn yn cynnwys gostyngiadau o ran staffio, nid yw'r un ohonynt yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o risg nac asesiad o effaith hyn ar y cwricwlwm, ansawdd addysg neu safonau disgyblion. Mae'n parhau'n aneglur felly a fydd y gostyngiadau arfaethedig o ran cyllideb yn rhwystro neu'n cefnogi'r gwelliannau angenrheidiol mewn safonau disgyblion, ym mhob un o'r ysgolion hyn sy'n gorwario ac yn tanberfformio.'

85 Dywed y Cyngor fod gan 16 o ysgolion cynradd ddiffyg ar hyn o bryd, sef un yn fwy na'r nifer ym mis Mawrth 2012. Mae gwerth cronedig y diffygion wedi gostwng £80,000 ers mis Mawrth 2012 ac mae'n cyfateb i £263,000 erbyn hyn. Mae gan bump o ysgolion uwchradd ddiffyg, sef un yn fwy na'r nifer ym mis Mawrth 2012. Mae gwerth cronedig y diffygion wedi gostwng £181,000 ers mis Mawrth 2012 ac mae'n cyfateb i £1,268,000 erbyn hyn. O'r 13 o ysgolion a oedd â diffygion heb eu hawdurdodi o'r blaen, mae pob un ond tair wedi pennu cyllideb gytbwys yn ystod y flwyddyn. Mae gan y tair nad oes ganddynt gyllideb gytbwys yn ystod y flwyddyn ddiffyg bach yn ystod y flwyddyn.

86 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod y sefyllfa o ran cyllidebau ysgolion uwchradd yn anghynaliadwy erbyn hyn. Ymddengys fod dull y Cyngor o reoli cyllid ysgolion, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, yn briodol ond mae her sylweddol yn parhau os yw'r Cyngor am leihau diffygion yn y tymor byr a'u dileu yn y tymor hwy.

## Dim ond yn rhannol y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofyniad iddo wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus, ac mae angen gweithredu'n brydlon ac yn bendant er mwyn cyflawni a dangos gwelliant mewn gwasanaethau allweddol

87 Dim ond yn rhannol y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofyniad iddo wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd bod y Cyngor:

- wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella dan y Mesur;
- wedi cymeradwyo cynllun busnes y bwriedir iddo wella perfformiad Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, a'i fod wrthi'n monitro'r modd y caiff y cynllun busnes ei weithredu;

- wedi cychwyn ar broses o newid diwylliannol a threfniadaethol y bwriedir iddo wella'r ffocws ar ganlyniadau gwasanaethau, cryfhau capasiti a sgiliau a sbarduno'r gwaith o gyflawni ei amcanion gwella;

- wedi cyflwyno trefniadau cynllunio ariannol sy'n ystyried y gost sy'n gysylltiedig â chyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella.

Ond mae gwaith sylweddol i'w wneud o safbwynt y meysydd canlynol:

- gweithredu ei drefniadau a ddiwygiwyd yn ddiweddar ar gyfer rheoli diffygion mewn cyllidebau ysgolion yn well;

- gwella'r fframwaith rheoli perfformiad:

  – fel bod perfformiad gwasanaethau'n cael ei fonitro a'i werthuso'n effeithiol;

  – fel bod swyddogion yn cael eu dwyn i gyfrif fel mater o drefn am berfformiad yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt.

88 Rydym yn ymwybodol bod Gweinidog Cymru dros Lywodraeth Leol a Chymunedau wedi ysgrifennu at Arweinydd y Cyngor ar 18 Rhagfyr 2012, ar ôl darllen ein hadroddiadau i ac adroddiadau rheoleiddwyr perthnasol, er mwyn mynegi ei bryderon ynghylch rhagolygon y Cyngor ar gyfer gwella ei wasanaethau i ddinasyddion. Mae ei bryderon penodol yn ymwneud â rhagolygon y Cyngor ar gyfer gwella gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau addysg a gwasanaethau gwastraff. Dywed y Gweinidog ei bod yn angenrheidiol i'r Cyngor weithredu'n brydlon ac yn bendant er mwyn cyflawni a dangos gwelliant yn y gwasanaethau hyn.

89 Mae Estyn wedi nodi fel a ganlyn: 'Mae'n amlwg fod aelodau etholedig allweddol (yr arweinydd, yr aelod arweiniol ar gyfer addysg, cadeirydd y pwyllgor craffu), y prif weithredwr, a'r cyfarwyddwr strategol yn ymwybodol o'r diffygion a'r heriau mewn gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc. Maent yn gwybod ac yn deall beth sydd angen ei wneud i oresgyn y rhwystrau i gynnydd. Ar hyn o bryd mae'r uwch swyddogion a'r aelodau hyn yn arwain proses raddol o newid diwylliannol er mwyn sicrhau ymagwedd dryloyw ac atebol at wella o fewn yr awdurdod. Fodd bynnag, araf yw'r cynnydd, ac mae ar gyfnod cynnar iawn.'

90 Bydd sicrhau gwelliant mewn canlyniadau gwasanaethau'n dibynnu ar arweinyddiaeth gadarn a phenderfynol, ymrwymiad ac ymroddiad gan staff cymwys, a her a chymorth medrus a ddarperir gan dimau gwella corfforaethol a gwaith craffu gan wleidyddion – ni fydd y trefniadau ar eu pen eu hunain yn arwain at welliant.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Bowys a Chyngor Sir Powys

## Y Cyngor

Mae Cyngor Sir Powys yn gwario tua £248 miliwn y flwyddyn (2013-14). Mae hyn yn cyfateb i tua £1,872 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £52 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Powys oedd £936 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.75 y cant i £962 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae 58 y cant o dai ym Mhowys yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 73 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 24 aelod o Gynghrair Annibynnol Powys
- 21 aelod o Grŵp Annibynnol y Rhanbarthau
- 9 aelod o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 9 aelod o'r Ceidwadwyr Cymreig
- 6 aelod o Lafur Cymru
- 4 heb fod yn aelodau o unrhyw blaid

Prif Weithredwr Powys yw Jeremy Patterson.

- Cyfarwyddwr Strategol – Cymunedau, Sgiliau a Dysgu: Paul Griffiths
- Cyfarwyddwr Strategol Interim – Gofal a Lles: Parry Davies
- Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid a Seilwaith: Geoff Petty
- Cyfarwyddwr Strategol – Y Gyfraith a Llywodraethu: Clarence Meredith

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Bowys yw:

- Maldwyn: Russell George (Ceidwadwyr Cymreig)
- Brycheiniog a Maesyfed: Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)
- Aelodau Rhanbarthol Canolbarth Cymru: Rebecca Evans, Joyce Watson (y Blaid Lafur), Simon Thomas (Plaid Cymru) a William Powell (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)

Yr Aelodau Seneddol dros Bowys yw:

- Maldwyn: Glyn Davies (Ceidwadwr)
- Brycheiniog a Maesyfed: Roger Williams (Democrat Rhyddfrydol)

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun www.powys.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys LD1 5LG.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Y Cynghorydd David Jones – Arweinydd
Jeremy Patterson – Prif Weithredwr
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Annwyl Gynghorydd Jones a Jeremy

## Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Powys

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Penodedig dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau ynghylch adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'r rhan fwyaf o'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd a wneir o adnoddau, er na chyhoeddodd ei ddatganiadau ariannol archwiliedig tan 15 Hydref 2012

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu a pharhau i adolygu trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn mynnu fy mod yn:

- darparu barn archwilio am y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau;
- cyflwyno tystysgrif sy'n cadarnhau fy mod wedi gorffen archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu'n unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, fel y'u diwygiwyd, yn mynnu bod y Cyngor yn cyhoeddi ei ddatganiad o gyfrifon, ni waeth a yw'r cyfrifon wedi eu harchwilio ai peidio, erbyn 30 Medi bob blwyddyn. Oherwydd amryfusedd, a achoswyd oherwydd bod aelod allweddol o'r tîm cyllid wedi gadael ei swydd yn y Cyngor, nid oedd y Datganiad o Gyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Sir Powys tan 15 Hydref 2012. Mae'r Cyngor wedi rhoi sicrwydd i ni y bydd y sefyllfa hon yn cael ei hunioni yn y blynyddoedd a ddaw.

Ar 28 Medi 2012 cyflwynais farn archwilio ddiamod am y datganiadau cyfrifyddu gan ddatgan eu bod yn ddarlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd ynghylch y materion allweddol a oedd yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiadau Archwilio Datganiadau Ariannol ar 28 Medi 2012.

Nodwyd y materion canlynol ynghylch datganiad o gyfrifon Cyngor Sir Powys a Chronfa Bensiwn Powys:

- Yn unol ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae'r Cyngor wrthi'n cytuno ar setliadau cyflog cyfartal â gweithwyr. Mae cyfrifon 2011-2012 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaeth hon a'r cyfraniadau pensiwn cysylltiedig. Mae cyngor cyfreithiol a gafwyd gan yr Archwilydd Penodedig yn awgrymu ei bod yn briodol cydnabod y rhwymedigaeth hon. Fodd bynnag, ceir safbwyntiau cyfreithiol gwahanol ac ansicrwydd ynghylch yr angen i gydnabod darpariaeth yng nghyswllt y cyfraniadau pensiwn ar setliadau cyflog cyfartal, ac mae angen i'r Cyngor fod yn effro i unrhyw benderfyniadau gan lys yn y dyfodol ynghylch y mater hwn, a allai egluro'r sefyllfa gyfreithiol.

- Yn 2010-11 bu i ni sôn wrthych am rai pryderon ynghylch ansawdd eich arferion cyfrifyddu a'ch adroddiadau ariannol. Arweiniodd hynny at ffi archwilio ychwanegol ac at ddiwygiadau sylweddol i'r cyfrifon. Un o'r meysydd allweddol a oedd yn peri anhawster i ni oedd cyfrifyddu cyfalaf a chyllid cyfalaf. Mae'n bleser gennym adrodd eleni ein bod wedi gweld gwelliant sylweddol yn ansawdd yr arferion cyfrifyddu a'r papurau gwaith yn y maes hwn, a diwygiadau eithaf mân yn unig a wnaed i'r cyfrifon drafft o ganlyniad i'r broses archwilio.

- Daethpwyd ar draws rhai anawsterau eleni o ganlyniad i'r ffaith bod aelod allweddol o staff yr adran gyllid wedi gadael ei swydd yn y Cyngor ynghanol y broses archwilio. Roedd yr aelod hwnnw o staff wedi bod yn gyfrifol am lunio'r Datganiadau Ariannol drafft a'r papurau gwaith ategol. Fodd bynnag, er y bu rhywfaint o oedi yn ystod y broses archwilio, sicrhaodd cydweithrediad a gwaith caled staff yr adran gyllid fod modd i ni gwblhau'r broses archwilio'n brydlon heb unrhyw gost archwilio ychwanegol i'r Awdurdod.

- Yn rhan o'n gwaith archwilio ar y Gronfa Bensiwn, rydym yn dibynnu'n helaeth iawn ar ddatganiadau sicrwydd ynghylch systemau rheoli, a ddarperir gan Reolwyr y Gronfa. Fel rheol, bydd y datganiadau hyn yn rhoi digon o sicrwydd i ni bod systemau rheoli ar waith yng nghyswllt gwaith prisio a bodolaeth y buddsoddiadau a gaiff eu dal ar ran y Gronfa Bensiwn. Mae hynny'n arbennig o bwysig os nad oes modd arsylwi'r buddsoddiadau, h.y. os na ellir eu cysoni â rhestrau prisio'r gyfnewidfa stoc. Yn ystod ein harchwiliad, bu i ni nodi nad oedd un datganiad sicrwydd ynghylch systemau rheoli ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12 yng nghyswllt CBRE. Dylai'r Cyngor sicrhau bod y datganiadau hyn ar gael ar gyfer ei ofynion llywodraethu ei hun. Os nad ydynt ar gael, mae angen i'r Cyngor ganfod pam nad ydynt ar gael ac asesu trefniadau eraill ar gyfer sicrhau ei fod yn cael sicrwydd priodol ynghylch buddsoddiad y gronfa bensiwn, a gaiff ei ddal gan reolwr y gronfa.

- Bu i ni nodi bod un cyfrifiad penodol ynghylch buddion ymddeol lle nad oedd modd rhoi tystiolaeth i ni o'r cyfrifiad am nad oedd y cofnod wedi ei gynnal gan dimau gweinyddu'r pensiwn. Er i ni allu dod i'r casgliad bod hwn yn achos neilltuol, hoffem bwysleisio y dylai tystiolaeth o'r fath gael ei chynnal yn rhan o'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli cofnodion a chadw dogfennau.

- Yn ogystal, amlygodd ein gwaith archwilio bod ffigurau 2010-11 a 2011-12 ar gyfer nifer y cyfranwyr pensiwn wedi eu diwygio. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, cafwyd nifer o gyfranwyr pensiwn a oedd wedi aros ar y system gweinyddu pensiynau (Altair) ond a ddylai fod wedi eu tynnu oddi arni, h.y. roedd ôl-gronni wedi digwydd yn y system. Mae diwygiadau priodol wedi eu gwneud i'r datganiadau ariannol o ran hynny. Rydym yn argymell y dylai niferoedd y cyfranwyr a gofnodir ar system Altair gael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y system yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae'r modd yr wyf wedi ystyried trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar waith archwilio'r cyfrifon, gan ddibynnu hefyd ar y gwaith a gyflawnwyd yn rhan o'r Asesiad Gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn gyffredinol, rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hynny wedi ei brofi eto neu lle gellid gwneud gwelliannau, pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol. Er fy mod yn gyffredinol wedi dod i'r casgliad bod trefniadau ar waith, ceir dau faes yr hoffwn dynnu eich sylw atynt yn sgîl fy ngwaith:

- Tynnodd adolygiad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn archwilio flaenorol sylw at y ffaith ei bod yn bosibl nad oedd trefniadau priodol ar waith yng nghyswllt caffael gwasanaethau rheoli gwastraff a phartneriaethau â'r sector gwirfoddol. Rydym wedi cynnal trafodaethau pellach â'r Cyngor i helpu i sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer cynnwys cyflenwyr y sector gwirfoddol.

- Yn rhan o adolygiad o faterion a godwyd gan aelodau mewn perthynas â chynllun ailddatblygu, bu i ni ystyried achos cysylltiedig o werthu tir. Cymeradwyodd y cabinet y gwerthiant ym mis Gorffennaf 2011, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y pryderon a godwyd gan y swyddog Adran 151 am y broses werthu wedi cael ystyriaeth a sylw priodol. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith i gofnodi'r modd y rhoddir ystyriaeth i faterion a godir gan swyddogion statudol.

Cyflwynais dystysgrif ar 28 Medi 2012 i gadarnhau bod y gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi ei gwblhau.

Ar hyn o bryd disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn uwch na'r ffi y cytunwyd arni, a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol. Yn ystod y flwyddyn, gofynnodd y Cyngor i ni arwain Cydadolygiad gydag Archwilwyr Mewnol o feysydd a oedd yn peri pryder, yr oedd aelodau wedi tynnu sylw atynt. Buom hefyd yn ymdrin yn annibynnol â gohebiaeth a ddaeth i law oddi wrth etholwyr. Mae rhai o'r materion y tynnwyd eich sylw atynt yn y llythyr hwn wedi codi o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith hwnnw. Roedd y ffi archwilio ychwanegol a oedd yn ymwneud â'r gwaith hwnnw'n cyfateb i £12,810.

Yr eiddoch yn gywir

John Herniman
Cyfarwyddwr Grŵp

Ar ran yr Archwilydd Penodedig
27 Tachwedd 2012

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Powys

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei ddogfen sy'n dwyn y teitl *Cynllun Newid Powys 2012/15* sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.powys.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Meysydd allweddol ar gyfer gwella 2011-12 | Meysydd allweddol ar gyfer gwella 2012-13 |
|---|---|
| **Gofal a Lles** – Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwasanaethau di-dor, o ansawdd da drwy gyfrwng gwell modelau gofal a fydd yn adeiladu ar annibyniaeth a dycnwch unigolion, teuluoedd a chymunedau ac a fydd yn fwy effeithlon a chynaliadwy. | **Gofal a Lles** – Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael gwasanaethau iechyd a gofal da ac yn derbyn cymorth i aros yn eu cartrefi eu hunain cyn hired ag y maen nhw'n dymuno. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gan bobl mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da. |
| **Dysgu a'r Gymuned** – Byddwn yn lleihau costau drwy reoli asedau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol amryfal. Byddwn yn ad-drefnu darpariaethau ysgolion er mwyn cydweddu'r lleoedd â'r myfyrwyr a sicrhau bod ein hysgolion yn ariannol hyfyw ac yn addas at y diben. | **Dysgu a'r Gymuned** – Byddwn yn adolygu ysgolion a'r ddarpariaeth ôl-16 i ddiwallu heriau sy'n codi yn sgil cwymp yn nifer y disgyblion. Byddwn yn codi safonau adeiladau ysgolion fel eu bod yn addas i'r diben gan sicrhau eu bod yn darparu profiadau addysgiadol o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl. Bydd cyfleusterau newydd yn cynnwys ystod o wasanaethau bro. |
| **Adfywio** – Byddwn yn gwella lles economaidd dinasyddion Powys drwy ddefnyddio adnoddau a dylanwad y Cyngor i sbarduno gweithgaredd adfywio. | **Adfywio** – Byddwn yn gwella lles economaidd trigolion Powys trwy sefydlu economi gadarn a chynaliadwy sy'n seiliedig ar gymunedau bywiog a chynhwysol. Bydd busnesau'n buddsoddi a thyfu yn y cymunedau hyn a bydd pobl am fyw, gweithio ag ymweld â hwy. |
| **Newid yn yr Hinsawdd** – Byddwn yn helpu i ddiogelu a gwella'r amgylchedd drwy gynyddu cyfraddau ailgylchu; lleihau'r nwyon sy'n peri niwed i'n hamgylchedd a sicrhau bod y cyhoedd ym Mhowys yn ddiogel rhag effeithiau mwyaf eithriadol y newid yn yr hinsawdd e.e. risg gynyddol o lifogydd. | **Newid yn yr Hinsawdd** – Fel arweinydd cymunedol byddwn yn ymateb i newid yn yr hinsawdd trwy leihau ein hol-troed carbon, yn newid sut rydym yn casglu ac yn trin sbwriel a sut rydym yn rheoli ein hadeiladau a cherbydau. Byddwn yn helpu eraill, nid yn unig trwy leihau eu hol-troed carbon ond trwy wneud yr holl wasanaethau ym Mhowys yn fwy cadarn. |

| Meysydd allweddol ar gyfer gwella 2011-12 | Meysydd allweddol ar gyfer gwella 2012-13 |
| --- | --- |
| **Y Cyngor** – Byddwn yn gweithio fel un cyngor, gan herio'r hyn a gyflenwn a'r modd y cânt eu cyflenwi'n barhaus er mwyn gwella ansawdd a lleihau costau. Byddwn yn gwneud hyn drwy drawsnewid y ffyrdd y mae ein gweithlu'n gweithredu, y ffordd y caiff ei dalu a'i ddatblygu. Byddwn yn gwella'r modd yr ydym yn cyfathrebu gyda'r gymuned a'n gweithlu. Byddwn yn ceisio cyfleoedd i gydweithredu gyda chyrff cyhoeddus eraill. Byddwn yn defnyddio technoleg fodern i wella cynhyrchiant. Byddwn yn gwella'r ffyrdd yr ydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau. | **Y Cyngor** – Byddwn yn gweithio fel un cyngor, gan herio'r hyn rydym yn ei gyflwyno'n gyson a sut mae'n cael ei gyflwyno er mwyn gwella ansawdd ac i leihau costau. Byddwn yn gwneud hyn trwy trawsnewid y ffordd y mae ein gweithlu'n gweithio, yn cael ei dalu a'i ddatblygu; yn gwella sut rydym yn gyfathrebu gyda'r gymuned a'n gweithlu; yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill; yn defnyddio technoleg modern i wella cynhyrchiant a gwella'r ffordd rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael yn yr Adroddiad ynghylch Perfformiad sydd ar wefan y Cyngor www.powys.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk